

960)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.

Yr Hen Gapel,Pencader -- Chwefror 16eg/February 2015---7.30pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:

Val Davies	Glyn Jones	Raymond Lewis
Eirian Jones	Marc Jones	Keith Lewis
Annette Davies	Melfyn Evans	
Lynn Evans	Haulwen Lewis	Yvonne Griffiths

Clerc: S.Anita Evans

Ymddiheuriadau: Sian Thomas,C.Sir Linda Evans

Absennol: neb

Cyfieithydd: Hefin Jones

Ymwelwyr: PCSO Alice James,M.Davies,O.Davies,N.Marriott

Neges yr Heddwes/Police information:

1)Mae'r Heddlu wedi siarad â pherchen y ceir sy'n parcio ar ochr y ffordd yn hen adeilad Swyddfeydd y Cyngor ym Mhencader,ac mae wedi addo eu symud nôl o'r ffordd fawr.Mae cynllun ar waith ar Chwefror 25ain gyda phlant ysgol Cae'r Felin i godi sbwriel yn y pentre.Hefyd gyda'r Heddlu,mae'r plant yn mynd i wneud prosiect ar or-yrru yn yr ardal,ac yn mynd i drafod gyda'r gyrrwyr am eu trosedd.The owner of the garage on the old Council Yard in Pencader has informed the Police that he will move his cars further back from the road.Pupils of Cae'r Felin school will be collecting rubbish in the area on Feb 25th,and together with the Police will be carrying out a speeding survey,and will have an opportunity to speak to drivers about their errors.Annette Davies referred to the "sexting problem"and the PCSO said that the Police are raising awareness in schools.

Diolchwyd i PCSO James cyn iddi adael.

2)Ymwelwyr/public:-dywedodd N.Marriott ei bod yn braf gweld y Cyngor Cymuned a'r cyhoedd yn cydweithio/stated that it is good to see the Community Council and the public working together.

3)Datgan diddordeb—Haulwen Lewis 5(dd)/declaration of interest Haulwen Lewis 5(dd).

4)Cofnodion mis Ionawr/January minutes: cafwyd yn gywir Eirian Jones yn cynnig,a Melfyn Evans yn eilio/Jan minutes found to be correct—Eirian Jones proposed and Melfyn Evans seconded.

961)5)Materion yn codi o'r cyfarfod ola/matters arising from Jan.meeting:

a)Gary Carlsen yn ateb ein llythyr drwy ddweud y bydd e'n cysylltu â ni os daw cais i symud ran o lwybr Glanawmor Isa,Pencader.Mae hefyd yn gofyn am gopiau datganiadau cerddwyr sy wedi eu casglu.Bydd y Clerc yn eu postio.Gary Carlsen will contact this Council if there is an application to divert a footpath in the Glanawmor Isa area.He also asks for copies of witness statements from walkers who have used the path over the years.

b)Rhys Davies—cyfleusterau Alltwalis—y gwaith heb ei orffen eto/refurbishment has not finished at Alltwalis toilets.

c)Maesderwenydd—arolwg 19/02—inspection of paths and walls.

ch)Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys—i wneud penderfyniad ar ddyfodol camerau cylch cyfyng yn y 4 mis nesa/Police Commissioner will decide on the future of close circuit cameras in the next 4 months.

d)Gwefan—gohebiaeth oddiwrth Jeremy Clulow,Webs Wonder,C.N.Emlyn.Pris am greu gwefan i ni fydd £640.00-a bydd yn gallu cwblhau'r gwaith Ebrill/Mai.Mae'r Cwmni wedi ei ddewis o'r blaen a bydd y Clerc yn cysylltu i ddweud am gario mlaen.Webs Wonder,N.C.Emlyn will be creating a website for this Council—work should be done April/May.

dd)Clirio'r tir ar safle Fferm Wynt Gorllewin Brechfa(gadawodd Haulwen Lewis yr ystafell)yn dilyn cwynion,mae'r Cyngor yma wedi llythyru â Chyngor Sir Gâr,a Bethan Edwards o RWE.Cafwyd atebion yn dweud fod y canllawiau cywir wedi eu dilyn,a bod creu'r trac ddim wedi dechrau eto.(Haulwen Lewis left the room)Following this Council correspondence with Richard Jones(C.C.Council planning)and Bethan Edwards RWE,RWE answer by explaining that N.R.Wales guidelines have been followed.Regarding the query about the track,it was explained that work to construct the track has not yet started.In addition,Bethan Edwards offered to attend one of our meetings,to discuss the community liaison scheme which is to be set up before the start of construction.The Clerk will invite Bethan Edwards to our next meeting.

e)Diweddara oddiwrth Tony Williams:

1)Sbwriel yn y cloddiau—adrodd i Marc Davies.

4)coeden ar bwys Fferm Milestone—perchen i'w chlirio.

2)Clirio'r draeniau—ar waith—New Inn wedi eu gwneud.5)cwyn Gwynfryn—dod mas i'w gweld

3)Tyllau ar bwys Crossmaen a Brynsaeson wedi eu llenwi.

Bydd hefyd yn dod allan i weld ble mae'r dwr yn tarddu ar dop rhiw Alltwalis.

Up-date from Tony Williams(Street Scene C.C.Council):rubbish strewn on hedges in our Parish—passed on to Marc Davies;clearing of drains—has started—New Inn have been done;holes on roads by Crossmaen,and Brynsaeson have been filled;the tree left in the hedge outside Milestone Farm is the owner's responsibility;complaint from the homeowner in Gwynfryn,Gwyddgrug —a copy of the letter has been sent,and someone will call at the site.Also there will be a site visit at the top of Alltwalis hill —where there is a problem with spring water in bad weather.

f)Arwydd newydd --bu John McEvoy allan yn cwrdd â Glyn Jones a'r Clerc am 12 y prynhawn ma i drefnu gosod arwydd i wahardd lorïau droi lawr at hewl Glantweli Fach.John McEvoy met with Glyn Jones and the Clerk this afternoon to discuss where to place a road sign forbidding lorries turning down onto the Glantweli Fach road.

ff)Eirian Jones—yn rhoi gwybodaeth ar ôl bod ar ddiwrnod cwrs cynllunio:mae'r rheolau'n mynd i newid,a'r adran gorfodi o fewn cynllunio yn colli un aelod o staff.Yn y dyfodol bydd hawl da'r datblygwr fynd yn syth at y Cynulliad,a bydd dim cysylltiad â'r Cyngor Cymuned.Mae 700 o gynghorau cymuned yng Nghymru,ond bydd rhain yn lleihau wrth symud y ffiniau.Mae'n bwysig i gofio pan mae Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu cais—dim ond un gwrthwynebiad sy'n cael ei nodi,felly mae'n bwysig fod unigolion yn gweithredu hefyd.

962) 5g)Eirian Jones reported back after attending a planning course in Carmarthen.The planning rules are going to change,and the enforcement section will lose one member of staff.In future,the developer will be able to go direct to the Welsh Assembly,with no input from the Community Council.There are 700 community councils in Wales,but these will decrease with the change in boundaries.At present,it is important to note that when a community council objects to an application,only one objection is noted,therefore it is important that individuals also lodge objections.

ng)Seddau'r Plwyf:--mae'r Cynghorwyr yn awyddus i ddechrau ar y gwaith o ail-osod,ac atgyweirio'r seddau'n fuan.Daeth Keith Lewis â llyfryn o ddewisiadau,ac fe gynnigiodd Eirian Jones ein bod yn archebu 12 sedd(mae 6-8 wythnos o aros).Eiliodd Haulwen Lewis.Cynnigiodd Eirian Jones gymeryd y mesuriadau.Parish benches were discussed,and Eirian Jones proposed that we order 12 benches.Haulwen Lewis seconded.The final choice is the Eastgate cast iron framed bench for £398 + VAT,and a set of 4 ground bolts at £17.00.Eirian Jones offered to bring the specifications.

h)Bro Nantlais:mae 5 lle parcio yn mynd i'w creu ar y stad o flaen rhifau 13 a 14,gyda llinell wrth ochr 14 i hwyluso y fynedfa i rif 15.Five parking bays will be created on the site,in front of 13 and 14,with access protection marks to the side of no.14.

5)Cyfrifon: Finance ---cafwyd yn gywir Keith Lewis yn cynnig,ac Yvonne Griffiths yn eilio.Biliau i'w talu/bills to be paid:cyflogau arferol;Trywydd-£56.40,Clerk Costs(17/12 to 28/01)-£29.28.Cynnigiodd Glyn Jones fod rhain i'w talu,ac eiliodd Annette Davies.

6)Cynllunio/Planning:

a)Wedi eu caniatu/granted:

W/31388-----discharge of conditions—Pantyfen Uchaf,Llan'el for Mr.John Edwards.

W/31329-----adeilad newydd yn lle hen un—Maeslan,Alltwalis, i Mr.A.Saunders.

Newydd/new:

W/31555-----removal of conditions at Gellinewydd Garage for Mr.Andrew Havard.

6)Gohebiaeth/correspondence: C.Sir Gâr/C.County Council:

1)Fforwm Cyswllt Lleol:--cofnodion o gyfarfod Rhagfyr,a chais am gynrychiolydd o bob Cyngor Cymuned.Mae'r Clerc wedi bod yn mynychu'r rhain,ac fe gynnigiodd fynd yn y dyfodol.Cynnigiodd Raymond Lewis fod hyn yn iawn,ac eiliodd Yvonne Griffiths.County Liasion Forum,--minutes from the December meeting,and a request for a representative from all Community Councils.The Clerk will attend in future,as she has in the past.

2)Adolygiad o eiddo gwag y sector breifat: holiadur.Questionnaire regarding review of private sector empty properties.

Eraill:other: 3)Diolch am gyfraniadau/thanks for donations :Urdd,Llandysul;C.FF.Ifanc/Young Farmers;Youth Opera,Caerfyrddin;Bobath Cymru;Marie Curie.

4)Un LLais Cymru/One Voice Wales—aelodaeth/annual subs.£272.00(Eirian Jones yn cynnig a Haulwen Lewis yn eilio).

963 a) 6)Gohebiaeth parhad:

5)SLCC: --Cwrs Clercod yn Nimbych y Pysgod –Mawrth 7fed.Hefyd cwrs ar gyllid yn Llandrindod ar Fawrth 3ydd.Bydd y cwrs yma'n costio £95.00.

6)John Hubert,Blaencwm—wedi anfon llythyr ynghlyn â'r felin wynt i'w chodi ar dir Y Wern Pencader,yn cynnwys copi o lythyr a anfonwyd i'r Cyngor Sir.Gofidir fod canllawiau cynllunio yn cael eu torri.Gan ein bod wedi cysylltu â'r Cyngor Sir dair gwaith i wrthwynebu'r cais yma,cynnigiodd Marc Jones ein bod yn anfon copi o lythyr Mr.Hubert at yr adran gynllunio,a hefyd ei hysbysu ein bod yn gwneud hyn.Eiliodd Raymond Lewis.A letter has arrived from John Hubert,Blaencwm,Pencader stating his concerns that planning regulations,and complications with variations of conditions,are very difficult to understand re the proposed wind turbine at Y Wern,Pencader.As we have sent 3 letters opposing this application in the past,Marc Jones proposed that we send a copy of Mr.Hubert's letter to the planning deparment,and inform Mr.Hubert that weare doing this.Raymond Lewis seconded.

7)Diolch am gyfraniad oddiwrth/thanks for donations from: Urdd,Llandysul,C.FF.I(YFC),Youth Opera Caerfyrddin,Bobath Cymru,Marie Curie.

8)Cornel Chwarae: yn dilyn cwyn,mae Annette Davies wedi bod lawr yn y Cornel Chwarae yn tynnu lluniau.Y gŵyn,a'r broblem fawr yw baw cwn ar y safle.Trafodwyd rhoi ffens uwch,cloi'r gât gefn,ac yn y blaen.Dydd Sadwrn bydd Eirian Jones,Melfyn Evans,Keith Lewis a Raymond Lewis yn cwrdd ar y safle am 8 y bore, ac yn adrodd nôl.Lately,there has been a serious problem with dog fouling inside the grounds of the Play Area in Pencader.There was a discussion on how to improve conditions,and a sub committee of Eirian Jones,Melfyn Evans,Keith Lewis and Raymond Lewis will meet on site at 8am on Saturday morning.They will report back to the Council at the next meeting.

7)UFA(gwybodaeth yn unig)AOB(information only).

Yvonne Griffiths---golau stryd tu fas Cwm,Gwyddgrug ddim yn gweithio/street light outside Cwm,Gwyddgrug,faulty.

Haulwen Lewis-- -angen cyswllt wi-fi ar y printer newydd/Eirian Jones possibly could help with wi-fi for new printer.

Val Davies---- mae pethau ar waith i wella hewl Pontweli/preparations have started to improve road in Pontweli.

Annette Davies---sbwriel ar y tro yn Alltwalis/rubbish in Alltwalis.Eisiau rhoi clawr y model o orsaf Pencader yn ei le.

Glyn Jones-----eisiau sylw ar y gratin tu fas y Green House,a'r manhole tu fas Tabernacl,a siop y sgwâr.

Eirian Jones-----mae problemau arwyddion "give way"yn ein Plwyf—un ar sgwâr Penlan,ac un ar bwys hewl Panteg ar y ffordd i Windy Corner o Bencader—angen atgyweirio a'u troi ffordd gywir.Two give way signs need attention.

Melfyn Evans-----maes parcio Travellers' Rest,New Inn—mae'r ffens wedi ei chodi ond mae tyllau ar ôl ac yn beryglus.The car park of Travellers' Rest in New Inn need to be made safe because of dangerous holes in the ground following the fence being removed.The Clerk will speak to the owner.

Clerc---- mae Vaughan Davies,Gwastod Abbott wedi gwneud cais ar i'r Cyngor gysylltu â Western Power i symud "stay"ar bwys ei dir drws nesa i Brynglas,New Inn—ond gan fod y postyn ar dir preifat,ni ellir gwneud dim drwy'r Cyngor yma.

Gorffennwyd am 9 yh

964)

Adroddiad ariannol/financial report:

Taliadau/payments:

Derbyniadau/receipts:

Haydn Jones	240.51	yn y Banc 3/2/15	£74,843.62
Janet Jones	129.19	T.Lewis(angladd John Howells)	100.00
Anita Evans	341.86		
Costau'r Clerc			
(17/12 hyd 28/01)	29.28		
Trywydd	56.40		
PAYE	177.60		

Cyfanswm: £974.84 £74,943.62

Yn y Banc Mawrth 6ed 2015 £73,968.78